

Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin



**Astudiaeth Achos - The Community Impact Initiative:
Sustaining a Legacy
Tachwedd 2025**



1. Y Mudiad

Mae cwmni buddiant cymunedol Community Impact Initiative (a elwir yn Cii) yn fudiad newid cymdeithasol nid er elw, arobyn sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad, gwelliant a chynaliadwyedd ein cymunedau.



Eu Gweledigaeth yw "Rydym yn credu mewn dyfodol lle mae ein cymunedau'n ffynnu ac yn llwyddo."

Eu Cenhadaeth yw "Gwella ein cymunedau drwy atebion arloesol, gan ddarparu cyfleoedd i unigolion wneud cyfraniad ystyrlon i gymdeithas."

2. Y Prosiect

Mae prosiect Community Impact Initiative: Sustaining a Legacy yn gweithredu ar draws De Cymru.

Mae Sustaining a Legacy yn brosiect arloesol sy'n cefnogi aelodau ein cymuned leol i gymryd rhan mewn gweithredu dros yr hinsawdd. Drwy adfywio eiddo gwag, mae'r prosiect yn helpu gwirfoddolwyr i ddeall yn well sut y gall gweithredoedd unigol a chyfunol gael effaith amgylcheddol gadarnhaol, a'r camau rhagweithiol y gall pobl eu cymryd i wella eu heffeithlonrwydd ynni.

Gan weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid, mae Sustaining a Legacy yn helpu gwirfoddolwyr i ddeall sut i adfywio ac inswleiddio cartrefi yn effeithiol i leihau'r defnydd o ynni, gan gael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar yr hinsawdd a'r amgylchedd.

Mae'r prosiect yn gymwys i unrhyw un 16 oed a hŷn sydd â diddordeb mewn deall mwy am weithredu ar yr hinsawdd a pha fesurau ymarferol y gallant eu cymryd i leihau eu hól troed carbon a gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

Mae gan brosiect Sustaining a Legacy y canlyniadau canlynol.

Canlyniad 1 - 60 aelwyd yn lleihau eu defnydd o ynni a'u risg o fynd i dlodi tanwydd.

Wedi'i fesur drwy ddefnydd ynni gwirfoddolwyr cyn ac ar ôl ymgysylltu â'r prosiect. Gellir defnyddio systemau monitro cost-effeithiol.



Canlyniad 2 - 60 aelod o'r gymuned yn meddu ar ddealltwriaeth gynyddol o sut i wella eu hól troed carbon eu hunain a throsglwyddo gwersi i gyfoedion.

Wedi'i fesur drwy holiaduron cyn ac ar ôl ymgysylltu â'r prosiect a thrwy fynychu 'Sgyrsiau Cist Offer'

Canlyniad 3 - 3 eiddo gwag mewn cyflwr gwael yn cael eu hadfer i ddefnydd mewn ffordd gynaliadwy ac effeithlon o ran ynni.

Wedi'i fesur drwy gyfrif yr eiddo a ddygwyd yn ôl i ddefnydd a thrwy gamau gweithredu a gwblhawyd ar y Cynllun Ôl-osod Tŷ Cyfan.

Canlyniad 4 - 50 o fudd-ddeiliaid yn meddu ar wybodaeth am sut y gall rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith yn ystod adfywio eiddo arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy i Gymru.

Wedi'i fesur drwy adroddiadau gwerthuso sy'n tystio i effaith gadarnhaol a anfonwyd at wahanol fudd-ddeiliaid a holiaduron budd-ddeiliaid.

3. Cynnydd hyd yma

Ym mis Gorffennaf 2025, mae Cii wedi bod ar waith ers 6 mis yn eu prosiect adnewyddu yn Alma Terrace, Dowlais, Merthyr Tudful. Mae hwn yn eiddo mawr a oedd angen gwaith adnewyddu sylweddol, cyn y gellir ei ddefnyddio eto fel eiddo preswyl. Roedd ganddo broblemau gyda dŵr yn dod i mewn a lleithder yn ogystal ag angen cynllun moderneiddio llawn i sicrhau bod gan yr eiddo berfformiad ynni da yn ogystal â bod yn lle dymunol i fyw.

Mae pob carfan o wirfoddolwyr yn gweithio gyda'r prosiect am chwe mis a gallant ddysgu'r holl grefftau gwahanol sydd eu hangen i adnewyddu tŷ gan gynnwys:

- Gosod brics
- Gwaith Coed
- Gwaith trydan
- Plymio
- Plastro
- Gwaith tir
- Addurno
- Gosod ceginau/ystafelloed d ymolchi

Mae'r garfan bresennol wedi cymryd camau gweithredu hinsawdd fel rhan o'r prosiect, megis:

- dysgu terminoleg gweithredu hinsawdd
- trafod sut i weithredu arferion effeithlon o ran ynni gartref
- cynllunio addasiadau effeithlon o ran ynni i'r eiddo
- cynnal gwaith sy'n effeithlon o ran ynni, gan gynnwys paratoi inswleiddio lloriau a waliau ac ailgylchu deunyddiau dymchwel.



Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio'n uniongyrchol o'r ganolfan waith ac mae'r garfan bresennol i gyd yn ddynion ifanc. Mae Cii wedi datblygu menter "Menywod yn Adeiladu Cymru", sy'n archwilio'r rhwystrau i gyfranogiad menywod, yn herio canfyddiadau ac yn annog ymgysylltiad. Nid yw hyn yn rhan o brosiect Sustaining a Legacy ond mae'n werth nodi gan eu bod yn cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos cynnydd hyd at fis Gorffennaf 2025 ar gyfer y prosiect.

Nifer yr unigolion a'r mudiadau sy'n ymwneud â'r prosiect.

- 57 o gyfranogwyr
- 96 o fudiadau (gan gynnwys partneriaid atgyfeirio, mudiadau cymorth, grwpiau cymunedol a phartneriaid cyflogaeth)
- Roedd 98% o'r cyfranogwyr yn newydd i sgysiau hinsawdd.

Newidiadau o ganlyniad i'r prosiect.

Yn seiliedig ar y data a gofnodwyd hyd yn hyn:

- Mae 72% o gyfranogwyr bellach yn cymryd rhan weithredol mewn arferion effeithlonrwydd ynni bob dydd gartref
- Dywedodd 95% o'r cyfranogwyr fod ymgysylltu â'r prosiect wedi eu helpu i ddeall yn well sut i leihau ynni mewn cartrefi. Mae cyfranogwyr wedi chwarae rhan weithredol wrth weithredu mesurau effeithlon o ran ynni yn yr eiddo a adfywiwyd.
- Mae 13 o gyfranogwyr wedi cyflawni cymwysterau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn symud ymlaen tuag at yrfaedd gwyrdd.

4. Iaith Sgysiau Hinsawdd

Nodi rhwystrau iaith a chyfathrebu

Mae diffyg gwybodaeth wedi cael ei gydnabod fel un o'r prif rwystrau sy'n atal pobl rhag ymgysylltu â sgysiau am newid hinsawdd. Daeth rhai o'r cyfranogwyr i'r prosiect gyda lefelau isel o lythrennedd a llythrennedd ariannol. Y tro cyntaf i Cii drafod effeithlonrwydd ynni gyda'u gwirfoddolwyr, ni weithiodd cystal ag yr oeddent wedi gobeithio. Fe wnaethon nhw neilltuo amser



i ffwrdd o dasgau adeiladu ymarferol i gyflwyno sesiynau arddull ystafell ddosbarth a fyddai'n helpu gwirfoddolwyr i ddeall mwy am y gwaith yr oeddent yn ei wneud.

Nid oedd llawer o'r gwirfoddolwyr yn hoffi'r sesiynau ystafell ddosbarth mwy ffurfiol ac o ganlyniad ni wnaethant ymgysylltu. Roeddent i gyd yn hoffi dysgu sgiliau ymarferol "ar y gwaith" yn hytrach na dysgu a oedd yn teimlo fel bod yn yr ysgol eto, a oedd i lawer â chynodiadau negyddol. Siaradodd un o'r sesiynau am effeithlonrwydd ynni a dywedodd un o'r gwirfoddolwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd "effeithlonrwydd" yn ei olygu. Ar y pwynt hwn, penderfynodd Cii ailystyried sut maen nhw'n cyflwyno'r sesiynau i'w gwneud yn hawdd eu deall a defnyddio iaith syml a fyddai'n helpu pobl i ymgysylltu. Roeddent hefyd eisiau eu gwneud yn berthnasol i'r bobl a oedd yn gwirfoddoli. Nododd un o'r tiwtoriaid ar y prosiect:

"Does dim llawer o bobl yn defnyddio jetiau preifat yn yr ardal yma, felly dydy lleihau eich milltiroedd awyr ddim yn berthnasol. Mae pawb yn llenwi tegell felly dim ond llenwi'r hyn sydd ei angen arnoch chi sy'n berthnasol."

Sut aeth y prosiect i'r afael â rhwystrau

Dechreuodd y sesiynau newydd a ddyluniodd Cii gyda the a donyts ac fe'u rhannwyd yn dair rhan.

Rhan un - eisteddodd y cyfranogwyr o amgylch bwrdd a chymryd rhan mewn "cyfatebu enwau â diffiniadau." Helpodd hyn y cyfranogwyr i ennill dealltwriaeth gydfuddiannol ac fe'i cwblhawyd fel grŵp, fel nad oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu os nad oeddent yn gwybod.

Rhan dau - ymarfer "llenwi'r bylchau" lle trafododd y cyfranogwyr ddatganiadau am arbed ynni. Roedd y datganiadau hyn wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol i gyfranogwyr nad ydynt efallai'n berchen ar eu cartref eu hunain nac yn talu biliau nac yn rheoli eu cyflenwad ynni. Gweithgareddau grŵp oedd y rhain i helpu pobl i archwilio'r potensial i arbed ynni yn eu bywydau a'i wneud yn berthnasol iddynt.

Roedd cwestiynau enghreifftiol yn cynnwys:

Faint o arian ydych chi'n meddwl y gallai cyflawni'r gweithgareddau canlynol eich arbed bob blwyddyn?

Troi'r thermostat i lawr 1°C £_____


Llenwi'r tegell gyda faint o ddŵr sydd ei angen arnoch yn unig £_____

Treulio 1 munud yn llai yn y cawod bob dydd £_____

Diffodd offer yn hytrach na'u gadael ar y modd segur £_____

Defnyddio bowlen golchi llestri yn hytrach na llenwi'r sinc cyfan £_____

Rhan tri - Roedd y drydydd weithgaredd yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd ynni'r eiddo yr oedd y cyfranogwyr yn gweithio arno. Roedd ganddynt gynllun llawr o'r eiddo a rhoddwyd rhestr o uwchraddiadau effeithlonrwydd ynni posibl i'r cyfranogwyr a gofynnwyd iddynt eu paru â'r lle cywir ar y cynllun. Unwaith eto, gwnaed hyn fel ymarfer tîm gyda llawer o drafodaeth, felly roedd pawb yn ymgysylltu.



Enghraifft o'r ymarfer "gwella effeithlonrwydd ynni'r eiddo".



Datblygodd Cii holiadur o'r enw "Dealltwriaeth o weithredu hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol". Mae'r arolwg hwn yn cael ei gwblhau gan gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu lleoliad a bydd yn caniatáu i Cii asesu a yw'r lleoliad wedi cynyddu'r ddealltwriaeth o weithredu yn erbyn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni.

Mae gan yr arolwg gyfres o ddatganiadau am weithredu ar yr hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni. Gofynnir i gyfranogwyr nodi a ydynt yn cytuno'n gryf, yn cytuno, yn niwtral, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â 10 datganiad. Mae manylion y rhain yn atodiad 1. Gan fod y prosiect yn dal i fod yn weithredol, nid yw'r data wedi'i gasglu i ddeall a yw barn y cyfranogwyr wedi newid. Bydd hyn yn cael ei drafod mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Llwyddiannau mewn sgysiau hinsawdd

Fel rhan o ymchwil Adroddiad Mewnwelediad, cyfwelodd y gwerthuswyr â dau gyfranogwr yn y prosiect. Roeddent ill dau yn ddynion gwyn yn eu harddegau ac wedi bod gyda'r prosiect am ddau a phum mis yn y drefn honno.

Dywedon nhw eu bod yn hoffi dysgu gwaith coed a'r gwaith tîm. Pan ofynnwyd iddynt ba gamau gweithredu hinsawdd yr oeddent wedi'u cymryd fel rhan o'r prosiect, nid oeddent yn gallu ateb, ond ar ôl trafodaeth bellach, fe wnaethon nhw bwysleisio eu bod wedi rhoi inswleiddio yn yr adeilad a fyddai o gymorth.

Nid oedd yr un ohonyn nhw wedi cymryd unrhyw gamau newid hinsawdd cyn bod yn rhan o'r prosiect, ond roedden nhw'n meddwl y bydden nhw'n cymryd camau newid hinsawdd yn y dyfodol.

Un o'r llwyddiannau mwyaf y mae Cii wedi'i gael gyda chyfranogwyr yw newid yr iaith maen nhw'n ei defnyddio wrth ddarparu sesiynau dysgu ar effeithlonrwydd ynni. Roedd mynd â phethau'n ôl i'r pethau sylfaenol ac archwilio materion fel grŵp yn ei gwneud hi'n llawer mwy cynhwysol, ac o ganlyniad cafodd y bobl a gymerodd ran yn y sesiynau lawer mwy allan ohonyn nhw a chynnal eu hymgysylltiad.

Ar ddechrau pob prosiect mae staff yn cael sgysiau cychwynnol gyda chyfranogwyr - i gael pobl i siarad a helpu i ddeall ble roedd pobl o ran gwybodaeth. Mae hyn yn caniatáu i'r prosiect deilwra sesiynau yn y dyfodol i gyd-fynd â gwybodaeth sylfaenol y cyfranogwyr a'u helpu i ddysgu heb eu llethu.

Heriau mewn sgysiau hinsawdd



Mae llawer o'r cyfranogwyr yn ifanc felly ddim yn meddwl am gostau ac effeithlonrwydd ynni gan nad ydyn nhw'n berchen ar eu cartref nac yn talu'r biliau. Roedd gan lawer o gyfranogwyr wybodaeth sylfaenol isel am effeithlonrwydd ynni, roedd gan rai ddim o gwbl.

Nid yw llawer o adnewyddu tai yn ymwneud yn benodol ag effeithlonrwydd ynni, felly wrth iddyn nhw roi to newydd neu ailfodelu'r adeilad, yr unig beth y gallant ei drafod yw inswleiddio. Dim ond ar ôl iddyn nhw osod gwresogi, goleuadau ac offer ac ati y gallant gael sgysiau mwy manwl am arbed ynni. Mae'r rhan fwyaf o hyn yn digwydd ar ddiwedd prosiect adnewyddu felly dim ond ar ddiwedd eu lleoliad y mae cyfranogwyr yn dod at hyn ac mae'n anoddach ei wneud yn berthnasol ar ddechrau prosiect.

Ar ddiwedd y lleoliad mae'r cyfranogwr yn cael ffolder gyda thystysgrif, cyfeirnod a rhestr o'r hyn a ddysgon nhw ar y prosiect. Mae hyn yn ddefnyddiol i ymgeiswyr sy'n chwilio am waith ond mae hefyd yn atgyfnerthu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ac mae'n rhywbeth y gallant gyfeirio'n ôl ato.

Gweithiodd Cii gyda darparwr hyfforddiant a oedd ar ariannu "React" – 30 awr o leoliadau â thâl i bobl ifanc 17-18 oed. Ymunodd rhai pobl oherwydd eu bod yn cael eu talu ond nad oeddent am ddysgu na gweithio. Mae Cii wedi penderfynu peidio â gwneud hyn o hyn ymlaen.

5. Dysgu Allweddol

Gellir crynhoi'r dysgu allweddol am iaith a chyfathrebu o brosiect Community Impact Initiative: Sustaining a Legacy fel a ganlyn.

- **Dechreuwch gyda gwybodaeth cyfranogwyr.** Mae gan rai pobl ifanc wybodaeth sylfaenol isel iawn am effeithlonrwydd ynni a gweithredu ar yr hinsawdd ac roedd bron pob cyfranogwr yn y prosiect hwn yn newydd i weithredu ar yr hinsawdd.
- **Cadwch bethau'n syml** er mwyn ymgysylltu â'r grwpiau hyn, i helpu i feithrin gwybodaeth a hyder i siarad am weithredu ar yr hinsawdd.
- Roedd **gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau'n anffurfiol** o gymorth i gyfranogwyr ymgysylltu mwy â sesiynau dysgu arddull ystafell ddosbarth.



- Gwnaeth **symleiddio'r iaith**, mynd â therminoleg yn ôl i'r pethau sylfaenol ac archwilio materion fel grŵp, yr holl beth yn llawer mwy cynhwysol.
- **Trafodwch wrth fynd**. Mae gwaith ymarferol (adnewyddu tai) yn caniatáu i diwtoriaid drafod cysyniadau gweithredu ar yr hinsawdd tra bod cyfranogwyr yn gweithio, sef yr amgylchedd dysgu a oedd yn well gan rai pobl.
- **Gwnewch bethau'n berthnasol**. Mae gwneud pethau'n berthnasol i sefyllfa pobl yn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw ddeall ac yna cymryd camau gweithredu (er enghraifft lleihau milltiroedd awyr yn hytrach na dim ond rhoi'r hyn sydd ei angen arnoch mewn tegell).
- **Crëwch waelodlin**. Mae arolygu cyfranogwyr mewn tair cam yn ystod y prosiect yn caniatáu i brosiectau greu gwaelodlin a gweld a gafodd yr ymyrraeth yr effaith a fwriadwyd.

Atodiad: Arolwg Cyfranogwyr

Datblygodd Cii holiadur o'r enw "Dealltwriaeth o weithredu hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol". Mae'r arolwg hwn yn cael ei gwblhau gan gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu lleoliad a bydd yn caniatáu i Cii asesu a yw'r lleoliad wedi cynyddu'r ddealltwriaeth o weithredu yn erbyn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni. Defnyddion nhw raddfa Likert i fesur barn trwy ofyn i ymatebwyr nodi i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau. Cyflwynodd gyfres o opsiynau yn amrywio o "cytuno'n gryf," "cytuno," "niwtral," "anghytuno," ac "anghytuno'n gryf".

Arolwg o ddealltwriaeth o weithredu hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol

1. Rwy'n gwybod llawer am effeithlonrwydd ynni
2. Mae fy ngweithredoedd unigol yn cael effaith ar fy nefnydd o ynni.
3. Gall fy ngweithredoedd unigol gael effaith ar yr amgylchedd.
4. Mae bod yn effeithlon o ran ynni yn arbed arian i mi
5. Mae gen i ddealltwriaeth dda o sut i leihau ynni gartref er mwyn arbed arian.
6. Dydw i byth yn meddwl mewn gwirionedd am ddefnydd ynni fy nghartref



7. Dydw i ddim yn gwybod sut i reoli gwresogi fy nhŷ yn effeithlon.
8. Pan fyddaf yn prynu teclyn, rwy'n gwirio'r sgoriau ynni.
9. Mae gen i'r hyder i drafod mesurau effeithlonrwydd ynni gyda ffrindiau a theulu
10. Rwy'n gwneud ymdrech weithredol gydag effeithlonrwydd ynni drwy ddiffodd goleuadau, troi'r thermostat i lawr neu gamau gweithredu eraill

Ynglŷn â rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu ac Egin

Caiff Camau Cynaliadwy Cymru ei gyflwyno gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan arian o'r Cynllun Asedau Segur. Mae Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin yn ddwy o bedair rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru. Maent yn cefnogi ymrwymiad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:

- i greu dyfodol cynaliadwy
- i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd sydd eisiau gweithredu ar newid hinsawdd.

Nod **Grantiau Egin** (2023–2030) yw helpu grwpiau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae ariannu ar gael hyd at £15,000. Mae ar agor i grwpiau sy'n derbyn cefnogaeth gan [Camau Cynaliadwy Cymru – Gwasanaeth Mentora Egin](#).

Nod **Grantiau Gweithredu** (2022–2028) yw mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn cymunedau a helpu pobl i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Dyfarnwyd arian i 14 o brosiectau, yn amrywio o £10,001 i £350,000. Gallwch ddysgu mwy am [Grantiau Egin](#) a [Grantiau Gweithredu](#) ar wefan y Gronfa.

Ynglŷn â'r gwerthusiad

Penodwyd Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, gyda Liz Bickerton Consulting, gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2022 i werthuso Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin. Nod y tîm gwerthuso yw cynhyrchu dysgu a thystiolaeth o effaith ar draws y rhaglen, gan ganolbwyntio ar sut mae'r grantiau'n ymgysylltu â phobl a grwpiau newydd mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn ysgogi newid ymddygiad, ac yn lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwerthusiad yn rhedeg tan 2027.

Ynglŷn â'r astudiaeth achos hon

Dyma un o dair astudiaeth achos prosiect o ymchwil a archwiliodd rwystrau iaith a chyfathrebu wrth ymgysylltu â chymunedau ar newid hinsawdd, a sut mae prosiectau wedi gweithio i'w goresgyn. Crynhoir y dulliau a'r canfyddiadau yn Adroddiad Mewnwelediad #2 "Sero Net – Beth Net?".